



## Penodi Llywydd ac aelodau eraill Tribiwnlys y Gymraeg

### Datganiad o'r Polisi a'r Weithdrefn Benodi

#### **1 Y Cefndir**

- 1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys") a fydd yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ynghylch safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Mae'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys. Bydd y Tribiwnlys yn cynnwys:
  - Llywydd, sy'n bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 10 mlynedd
  - Aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, ac sy'n bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd;
  - Aelodau lleyg.
- 1.3 Bydd Gweinidogion Cymru yn dyfarnu nifer yr aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith a'r aelodau lleyg i'w penodi. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd cyn pennu'r nifer hwnnw.

#### **2 Diben**

- 2.1 Mae'r datganiad hwn yn darparu manylion y broses ar gyfer penodi Llywydd ac aelodau'r Tribiwnlys. Amlinellir y gofynion penodi ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013 (2013 Rhif 3139 Cy.312).

#### **3 Dyletswyddau Gweinidogion Cymru**

- 3.1 Wrth benodi aelodau'r Tribiwnlys, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r angen i gynnal egwyddorion annibyniaeth y Tribiwnlys a chynnal rheolaeth y gyfraith.
- 3.2 Teilyngdod a chymeriad da
  - 3.2.1 Rhaid penodi aelodau ar sail teilyngdod a rhaid iddynt fod o gymeriad da.

### 3.3 Y Gymraeg

- 3.3.1 Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â phenodi Llywydd i'r Tribiwnlys oni bai eu bodlonir bod gan y person hwnnw wybodaeth ddigonol o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi.
- 3.3.2 Wrth benodi aelodau cyfreithiol a lleyg, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried gwybodaeth o'r Gymraeg a'u hyfedredd ynddi sydd gan aelodau'r Tribiwnlys gyda'i gilydd.

### 3.4 Amrywiaeth

- 3.4.1 Rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r angen i annog amrywiaeth yn ystod y bobl y maent yn eu penodi'n aelodau o'r Tribiwnlys.

## 4 **Y broses benodi**

### 4.1 Hysbysebu

- 4.1.1 Caiff pob swydd wag ei hysbysebu am o leiaf dair wythnos. Byddant yn cael eu hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru, ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ac mewn cyhoeddiadau perthnasol a fydd yn annog ymgeiswyr cryf ac amrywiol.

### 4.2 Pecyn gwybodaeth

- 4.2.1 Caiff pecyn cais ei baratoi ar gyfer pob swydd wag a fydd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol am y swydd

- cefndir y Tribiwnlys
- disgrifiad o'r rôl
- manyleb y person
- amcan o'r ymrwymiad amser
- hyd y penodiad
- y tâl cydnabyddiaeth
- y telerau penodi
- lleoliad y cyfarfodydd
- unrhyw ofynion statudol perthnasol, neu gyfyngiadau penodol
- y broses ddethol
- y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais

### 4.3 Y panel penodi

- 4.3.1 Bydd y canlynol yn aelodau o'r panel ar gyfer penodi'r Llywydd:

- uwch farnwr Cymreig, a enwebwyd gan yr Arglwydd Brif Ustus, a fydd yn cadeirio'r panel
- aelod o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol
- asesydd annibynnol

4.3.2 I benodi aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg, bydd Llywydd y Tribiwnlys yn cymryd lle'r uwch farnwr a'r aelod o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol fydd yn cadeirio'r panel.

#### 4.4 Dethol y rhestr fer

4.4.1 Caiff y ceisiadau eu gwirio er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion y penodiad.

4.4.2 Bydd y sifft papur yn cael ei wneud gan aelodau'r panel yn erbyn manyleb y person a'r disgrifiad o'r rôl gan ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a geirda.

#### 4.4 Canolwyr

4.4.1 Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu un geirda personol a dau eirda proffesiynol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd sicrhau bod y geirda personol yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Ceir manylion ynghylch sut a phryd i'w gyflwyno yn y pecyn cais. Bydd swyddogion yn gofyn i'r canolwyr proffesiynol am eirda ar ran y panel penodi.

#### 4.5 Y cyfweiliad a'r broses asesu

4.5.1 Bydd tair rhan i'r broses o gyfweild ac asesu'r ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer:

1. cyflwyniad gan bob ymgeisydd gyda chwestiynau dilynol gan y panel
2. cwestiynau ynghylch profiad yn seiliedig ar y disgrifiad o'r rôl, y ffurflen gais a'r geirda;
3. un neu fwy o astudiaethau achos sy'n adlewyrchu rôl y swydd wag.

#### 4.6 Ymgynghori ar ôl cyfweild

4.6.1 Ar ôl i'r panel ddewis yr ymgeisydd a ffefrir ganddynt ar gyfer swydd Llywydd y Tribiwnlys, bydd enw'r person hwnnw (ac unrhyw ymgeisydd wrth gefn) a rhesymau'r panel yn cael eu cyflwyno i'r ymgynghoreion y cytunwyd arnynt er mwyn cael eu sylwadau.

4.6.2 Dyma'r ymgynghoreion y cytunwyd arnynt:

- Yr Arglwydd Brif Ustus
- Cadeirydd Pwyllgor Cymru Cyngor y Barnwyr neu, os mai'r un person yw'r Arglwydd Brif Ustus, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Cymru Cyngor y Barnwyr a/neu Uwch Farnwr o'r Pwyllgor hwnnw.
- Unrhyw un sydd wedi bod yn Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg yn y gorffennol (yn dilyn y broses benodi gyntaf)

4.6.3 Ni fydd ymgynghoriad ar ôl y cyfweiliadau ar gyfer aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg.

#### 4.7 Cymeradwyo neu wrthod argymhelliad y panel

4.7.1 Bydd sylwadau'r ymgynghoreion ynghyd ag argymhelliad y panel penodi yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo neu eu gwrthod.

4.7.2 Os yw Gweinidogion Cymru yn cytuno ag argymhelliad y panel penodi, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig y swydd. Caiff yr ymgeiswyr aflwyddiannus eu hysbysu pan fydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi derbyn y swydd.

4.7.3 Bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff datganiad i'r wasg ei chyhoeddi wedi hynny.

4.7.4 Os nad yw Gweinidogion Cymru'n cytuno ag argymhelliad y panel penodi, gallant drafod eu pryderon gyda'r panel. Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod holl argymhellion y panel, rhaid iddynt ddatgan y rhesymau a bydd y broses benodi'n dechrau eto.

## 5 **Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob pum mlynedd neu'n gynharach os bydd gofyn gwneud hynny yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth neu anghenion busnes. Caiff yr Arglwydd Brif Ustus ei hysbysu am unrhyw newidiadau.